# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## Cofnodion SOC(3)-02-08

**Dyddiad: Dydd Mawrth 3 Mehefin 2008**
**Amser: 5.30pm - 6.30pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili
Chris Franks, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Y Comisiynydd Safonau

Richard Penn, y Comisiynydd Safonau

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sulafa Halstead, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Keith Bush, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Cynulliad
Gareth Rogers, Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

### Eitem 1: Ymddiheuriadau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

### Eitem 2: Ystyried cyngor ynghylch y defnydd o'r bleidlais fwrw yn y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad

**Papur:**

SOC(3) 02-08 (p1) - Ystyried y defnydd o'r bleidlais fwrw mewn cysylltiad â'r Weithdrefn Gwyno.

2.1 Trafododd y pwyllgor y cyngor a chytunodd ar y newidiadau i'r Weithdrefn Gwyno, fel y'u nodir yn Atodiad B i'r papur.

### Eitem 3: Paratoi cod neu brotocol ynghylch rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol

**Papur:**

SOC(3) 02-08(p2) - Ystyried rôl y pwyllgor wrth ddrafftio cod neu brotocol ynghylch rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol.

3.1 Trafododd y pwyllgor yr angen i ddrafftio cod neu brotocol ynghylch rolau a chyfrifoldebau Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol.

3.2 Bydd y Clerc yn paratoi cod neu brotocol drafft ar gyfer y pwyllgor erbyn ei gyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r drafft er mwyn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad.

3.3 Yna, bydd y pwyllgor yn ailystyried y drafft yn dilyn y trafodaethau hynny.

### Eitem 4: Ystyried y Rheol Sefydlog arfaethedig ynghylch cofnodi achosion o gyflogi aelodau o'r teulu gan Aelodau'r Cynulliad

**Papur:**

SOC(3)-02-08 (p3) - Rheol Sefydlog arfaethedig

4.1 Trafododd y Pwyllgor y Rheol Sefydlog arfaethedig.

4.2 Teimlai'r pwyllgor y dylid ychwanegu 'nithoedd a neiaint' at y rhestr o aelodau o'r teulu y dylid eu cofnodi er mwyn bod yn gyson â rhestru 'modrybedd ac ewythrod'.

4.3 Cytunodd y pwyllgor y dylai'r Rheol Sefydlog arfaethedig ei gwneud hi'n ofynnol i gofrestru aelodau o'r teulu os cânt eu talu gydag arian cyhoeddus, ond ni ddylai hyn fod yn angenrheidiol i'r rheini sy'n gweithio'n wirfoddol, er enghraifft ar brofiad gwaith.

4.4 Teimlai'r pwyllgor y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i gofnodi aelodau o deulu Aelod Cynulliad sy'n gweithio i Aelod arall o'r Cynulliad.

4.5 Teimlai'r pwyllgor hefyd y dylid ystyried ymhellach y modd y cofnodir manylion cyflog aelodau o'r teulu y dylid eu cofnodi er mwyn ystyried hawliau preifatrwydd yr aelodau o staff hynny.

4.6 Cytunodd y pwyllgor y dylid cynnwys diffiniad mwy pendant o 'gefnder neu gyfnither' yn y Rheol Sefydlog arfaethedig.

4.7 Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol yn ailddrafftio'r Rheol Sefydlog arfaethedig. Mae'r pwyllgor am drafod yr ail ddrafft yn ei gyfarfod nesaf.

### Eitem 5: Mesur arfaethedig - y Comisiynydd Safonau - y cyfnod ymgynghori

**Papur**

SOC(3) 02-08 (p4) - Ystyried dull gweithredu posibl i'r pwyllgor wrth ddatblygu ei Fesur arfaethedig.

5.1 Cytunodd y pwyllgor i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad fel y nodir yn y papur.

### Eitem 6: Adroddiad llafar gan y Comisiynydd Safonau

6.1 Nododd y Comisiynydd Safonau nad oes unrhyw ymchwiliadau i gwynion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

6.2 Yn dilyn y gŵyn ddiweddar a nodwyd yn y cyfryngau, cadarnhaodd y Comisiynydd fod y gŵyn yn annerbyniadwy. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gŵyn, a sefyllfaoedd eraill tebyg, roedd y Comisiynydd wedi ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad yn argymell adolygu'r canllawiau ynghylch defnyddio adnoddau'r Cynulliad. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi bod yn dilyn y mater.

6.3 Bydd y Comisiynydd Safonau yn siarad mewn cynhadledd yn Llandrindod ar 11 Gorffennaf ar ddefnyddio cwynion er mwyn gwella gwasanaeth. Cytunodd y pwyllgor y dylai'r Cadeirydd hefyd fynd i'r gynhadledd.

6.4 Bydd y Comisiynydd Safonau yn cyfarfod â Chomisiynwyr eraill y DU yr wythnos nesaf. Bydd y Comisiynydd yn cyflwyno adroddiad ar y trafodaethau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2008**